

Fel hyn y dylai hi fod...

“Am hynny y dywedodd y cyfathrachwr wrth Boas, Pryn i ti dy hun: ac efe a ddiosgodd ei esgid.” (adn. 8) (B.W.M.)

Beth am ddarlenn Ruth 4: 5–8 ac yna myfyrio

Ddylem ni ddim anghofio'r ffaith fod stori Ruth wedi ei gosod yn ystod y cyfnod “pan oedd y barnwyr yn llywodraethu” (1:1) adeg yn ystod hanes Israel pan “Yr oedd pob un yn gwneud yr hyn oedd yn iawn yn ei olwg ei hun.” (Barnwyr 21:25) Roedd o'n gyfnod pan oedd grym yn bwysig, “cyfnod,” yn ôl un esboniwr, “ble roedd nerth yn gyfystyr â bwlio a gormesu a phobl yn gofalu am eu hunain ar draul gweddwon a phlant amddifad.” Mor braf, felly, yw dod ar draws dyn fel Boas ynghanol y fath gyfnod, a aeth y tu hwnt i lythren y ddeddf ac a geisiodd roi ei gyfoeth a'i safle ar waith er mwyn eraill.

Cyfrifoldeb ei pherthynas gwrywaidd agosaf oedd pob gwraig yn Israel. Yn ôl deddf teulu, roedd gan y perthynas agosaf rai dyletswyddau yn cynnwys ymorol am etifedd os oedd dyn wedi marw'n ddi-blant er mwyn parhad ei enw, a phrynu tir er mwyn ei gadw yn y teulu. Yr oedd Boas yn un o'r rhai oedd â dyletswydd tuag at Ruth, fel y datguddia sylw Naomi: “Agos i ni yw y gŵr hwnnw, un ydyw sydd iawn iddo ollwng.” (2:20) (B.W.M.)

Mae Edward F. Campbell yn disgrifio rhan y cyfathrachwr, neu'r un oedd yn gollwng fel un: “i weithredu ar ran personau a'u heiddo o fewn cylch y teulu estynedig... i fod yn gyfrifol am yr anffortunos ac i sefyll fel cefnogwr ac i siarad o'u plaid... i ofalu am y rhai na chafodd gyfiawnder.” Am i Boas dderbyn ei gyfrifoldeb, am iddo fyw yn gyfystyr â'i enw a gwneud mwy na gofynion y ddeddf, fe ddaeth yn rhan o stori a anfarwolodd ei enw. Roedd yr egni a fyrlymai trwy ei enaid yn troi o gwmpas eraill. Dyna sut ddylai hi fod efo pawb sy'n rhan o stori Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gen. 43:1–9; 2 Cor. 5:21; Marc 15:34

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa mor bell oedd Jwda yn barod i fynd dros ei frawd?
2. Pa mor bell aeth Iesu drosom ni?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, helpa fi i gymryd fy rhan yn dy stori di gan afael ym mhob cyfrifoldeb a gaiff ei gynnig i mi gyda brwdfrydedd ac ysbryd hael. Gwna fi yn berson mae ei fywyd yn wir droi o gwmpas eraill. Yn enw Iesu. Amen.